Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

**Panel Craffu**

**Ymarfer Hap Samplo**

# Adolygiad o Ddigwyddiadau Domestig ac Arfau Saethu

# (Tach 2016-Awst 2017)

# Gwarediadau y Tu Allan i'r Llys

**Adborth a Chanfyddiadau Aelodau Panel**

**Hydref 2017**

# Cynnwys

1.0 Trosolwg ........ 2
2.0 Cefndir, Diben a Methodoleg ........ 2
3.0 Cymeradwyaeth y Cadeirydd Panel ........ 4
4.0 Camau gweithredu a gymerwyd yn dilyn y cyfarfod Panel diwethaf ........ 5
5.0 Domestig ac Arfau Saethu – drwgdybiedigion ifainc........ 5
6.0 Digwyddiadau Domestig ac Arfau Saethu – drwgdybiedigion sy'n oedolion 7
7.0 Asesiadau'r Panel hyd yn hyn ........ 12
8.0 Ffocws y Panel ar gyfer y Dyfodol ........ 16

## 1.0 Trosolwg

Mewn cyfarfod o'r Panel Craffu ar Warediadau y Tu Allan i'r Llys a gynhaliwyd ar 23 Hydref 2017, adolygodd yr Aelodau ddetholiad o achosion domestig ac arfau saethu a gafodd eu trin drwy Warediad y Tu Allan i'r Llys.

Ystyriodd y Panel gyfanswm o 19 achos. Roedd 3 yn ymwneud â drwgdybiedigion ifainc, ac roedd 16 yn ymwneud â drwgdybiedigion a oedd yn oedolion.

## 2.0 Cefndir, Diben a Methodoleg

Mae Aelodau Panel yn cytuno ar faes ffocws ar gyfer pob cyfarfod. Maen nhw'n derbyn ffeiliau achos perthnasol bythefnos cyn pob cyfarfod sydd wedi'u dewis ar hap gan y Cadeirydd Panel. Yna, mae'r Panel yn cwrdd i drafod pob achos, a dod i ganlyniad lle bo'n bosibl o ran priodoldeb y gwarediad. **Wrth benderfynu pa gategori mae'r achos yn syrthio iddo, dylai'r panel ystyried y meini prawf canlynol:**


- barn ac adborth y dioddefydd a'r troseddwr;
- cydymffurfiaeth â pholisi'r heddlu;
- y rheswm dros y penderfyniad a'r canlyniad;
- yr effaith bosibl ar y gymuned;
- amgylchiadau a difrifoldeb y drosedd; a'r
- dewisiadau amgen posibl a oedd ar gael o bosibl.


Mae'r Panel yn trafod pob achos ac yn eu categoreiddio fel un o'r canlynol:


- Defnydd priodol ac yn gyson â'r polisi;
- Defnydd priodol gydag amheuon gan Aelodau panel;
- Defnydd amhriodol neu'n anghyson â'r polisi;
- Mae'r panel yn methu â dod i ganlyniad.

### 2.1 Data cefndir

Mae'r graff canlynol yn dangos y newid o ran defnydd Heddlu Dyfed-Powys o fathau gwahanol o warediadau y tu allan i'r llys dros amser.


Math o warediad ieuenctid y tu allan i'r llys fel canran o bob canlyniad trosedd
3.50%
3.00%
2.50%
2.00%
1.50%
1.00%
0.50%
0.00%
2012/13 2013/14 2014/15 2015/16 2016/17
Rhybudd Ieuenctid
Rhybudd Amodol Ieuenctid
Datrysiad Cymunedol Ieuenctid
Gwarediad Adferol Ieuenctid


Math o warediad oedolyn y tu allan i'r llys fel canran o bob canlyniad trosedd
16.00%
14.00%
12.00%
10.00%
8.00%
6.00%
4.00%
2.00%
0.00%
2012/13 2013/14 2014/15 2015/16 2016/17
Rhybudd Oedolyn
Rhybudd Amodol Oedolyn
Rhybudd Oedolyn - trosedd amgen
Datrysiad Cymunedol Oedolyn




## 3.0 Cymeradwyaeth y Cadeirydd Panel

Yr wyf i MR. N. E. POWELL. (enw mewn llythrennau brad) yn medru cadarnhau fy mod i wedi darllen yr adroddiad, a'i fod yn llawn gynrychioli'r barn a fynegwyd gan y Panel yn ystod ein ymarfer hap samplo ar 23 Hydref 2017.

Llofnod: [signature]

Dyddiad: 30/1/18.

## 4.0 Camau gweithredu a gymerwyd yn dilyn y cyfarfod Panel diwethaf

O ganlyniad i waith y Panel Gwarediadau y Tu Allan i'r Llys, cymerwyd y camau gweithredu canlynol ers y cyfarfod diwethaf:

- Atgoffwyd swyddogion am yr angen i gynnwys rhesymwaith dros benderfyniadau a chopi o'r ffurflen rybuddio o fewn ffeiliau achos.
- Rhoddwyd adborth i bob rhingyll bod "meddu ar ganabis" yn eiriad digonol ar gyfer Rhybuddion yn hytrach nag "ymgais i feddu".
- Yn dilyn argymhelliad y Panel yng nghyfarfod Ionawr 2017, mae'r heddlu wedi cynnal adolygiad mewnol o bob gwarediad tu allan i'r llys ar gyfer troseddau rhywiol ieuenctid. Wedi hynny, gwnaed pum argymhelliad i swyddogion ar gyfer gwella'r ffordd yr ymdrinnir ag achosion o'r natur hwn yn y dyfodol.

## 5.0 Domestig ac Arfau Saethu – drwgdybiedigion ifainc

Ymdriniwyd â dau o'r achosion ieuenctid a ystyriwyd drwy Ddatrysiad Cymunedol Ieuenctid, tra bod un a oedd yn cael ei amau o droseddu wedi derbyn Rhybudd Ieuenctid. Roedd asesiadau aelodau fel a ganlyn:

| Asesiad Aelodau | Nifer yr achosion |
|---|---|
| Priodol | 0 |
| Priodol gydag amheuon | 0 |
| Amhriodol | 3 |

### 5.1 Arsylwadau

Rhoddir manylion am arsylwadau aelodau panel ar bob achos isod.

**Achos 1**

Roedd yr aelodau'n teimlo bod y mater o Ddatrysiad Cymunedol Ieuenctid yn amhriodol oherwydd cysylltiad cyfyngedig y drwgdybiedig â'r Swyddfa Ieuenctid a chyfaddefiad o euogrwydd. O ganlyniad, roedd aelodau'n teimlo ei bod hi'n debygol iawn y byddai'n troseddau eto, ac felly mae'n bosibl y byddai'r drwgdybiedig wedi elwa o Rybudd Amodol.

**Asesiad Panel: Amhriodol**

## Achos 2

Cofnodwyd yr achos fel meddu ar arf saethu â bwriad sydd â matrics difrifoldeb uwch na'r hyn a gofnodwyd. Gwadodd y drwgdybiedig fwriad ond derbyniodd feddiant. Gan hynny, cyhoeddwyd y Datrysiad Cymunedol Ieuenctid ar gyfer y drosedd lai o feddu ar arf aer heb ei lwytho mewn man cyhoeddus. Nododd yr aelodau panel bod anghysondeb o fewn y ffeil achos o ran y disgrifiad o'r drosedd a'r cofnod matrics difrifoldeb dilynol sy'n dangos diffyg cysondeb â pholisi. Gan hynny, ystyriwyd bod Datrysiad Cymunedol Ieuenctid yn ddull gwaredu amhriodol.

**Asesiad Panel: Amhriodol**

## Achos 3

Roedd yr aelodau'n teimlo bod yr achos yn bodloni meini prawf sgôr matrics difrifoldeb gradd uwch, ac felly ystyriwyd nad oedd Datrysiad Cymunedol Ieuenctid ddigon llym. Roedd rhesymwaith a nodwyd yn y ffeil achos yn flaenorol yn nodi tuag at gyhoeddi Rhybudd. Hefyd, mynegwyd pryder ynglŷn â'r cymorth teuluol cyfyngedig a ddangoswyd drwy fethu â chydymffurfio â'r Swyddfa Ieuenctid a arweiniodd at asesiad anghyflawn, am i'r rhiant wrthod. Fodd bynnag, roedd aelodau panel yn fodlon â'r ffordd yr oedd yr achos yn cael ei drin o fewn yr ysgol a bod y drwgdybiedig wedi cydymffurfio'n llwyddiannus â'i ddatrysiad cymunedol ieuenctid drwy ysgrifennu llythyr o ymddiheuriad.

**Asesiad Panel: Amhriodol**

**Cam Gweithredu 1**

Rhoi arweiniad i'r Heddlu a'r Timoedd Troseddau Ieuenctid mewn perthynas â chwblhau'r matrics difrifoldeb a chydymffurfio ag ef.

## 6.0 Digwyddiadau Domestig ac Arfau Saethu – drwgdybiedigion sy'n oedolion

Adolygodd Aelodau Panel 16 achos oedolyn. Cafodd 11 eu trin drwy rybudd, 1 drwy rybudd amodol, a 4 drwy ddatrysiad cymunedol oedolyn. Roedd asesiadau'r aelodau fel a ganlyn:

| Asesiad yr aelodau | Nifer yr achosion |
|---|---|
| Priodol | 12 |
| Priodol gydag amheuon | 1 |
| Amhriodol | 5 |
| Panel Wedi Methu â Dod i Gasgliad | 1 |

### 6.1 Arsylwadau

Rhoddir manylion am arsylwadau aelodau panel ar bob achos isod.

**Achos 4**

Ystyriodd yr aelodau bod rhybudd yn briodol yn yr achos hwn lle yr oedd plentyn wedi ei lusgo ar hyd y carped gan ddioddef anafiadau i'w groen. Cyfaddefodd y drwygdybiedig yn llawn i'r drosedd a dangosodd edifeirwch diffuant. Roedd y rhieni hefyd yn ymgysylltu'n llawn â Gwasanaethau Cymdeithasol.

**Asesiad Panel: Priodol**

**Achos 5**

Cytunodd aelodau panel bod rhybudd yn briodol ar gyfer yr achos hwn gan fod y drwgdybiedig wedi cyfaddef yn llawn i'r drosedd ac nid oedd ganddo hanes blaenorol o droseddu.

**Asesiad Panel: Priodol**

## Achos 6

Roedd aelodau'n fodlon â'r canlyniad gan fod euogfarnau'r drwgdybiedig 40 mlynedd yn ôl. Oherwydd yr honiad o aflonyddu, awgrymodd yr aelodau y gall y dioddefydd fod wedi elwa o gael amod i gadw draw wrthynt yn rhan o'r rhybudd.

**Asesiad Panel: Priodol**

## Achos 7

Ystyriodd yr aelodau bod rhybudd yn briodol yn yr achos hwn.

**Asesiad Panel: Priodol**

## Achos 8

Roedd yr aelodau'n fodlon â'r rhesymwaith o fewn y ffeil achos a'r penderfyniad dilynol o ran canlyniad.

**Asesiad Panel: Priodol**

## Achos 9

Ystyriodd yr aelodau mai rhybudd oedd y math cywir o waredia d.

**Asesiad Panel: Priodol**

## Achos 10

Cytunodd y Panel mai Rhybudd oedd y math cywir o warediad oherwydd ni fynegodd y dioddefydd gŵyn ac roedd euogfarnau tebyg dros 7 blynedd yn ôl.

**Asesiad Panel: Priodol**

## Achos 11

Ni fynegodd aelodau unrhyw bryderon mewn perthynas â'r rhesymwaith o fewn y ffeil achos a'r penderfyniad dilynol o ran canlyniad gan mai hwn oedd trosedd cyntaf y troseddwr. Fodd bynnag, ar ôl y cyfarfod, daeth i'r amlwg bod polisi

Heddlu Dyfed-Powys yn dweud nad yw Rhybudd Amodol yn addas ar gyfer troseddau domestig. O ganlyniad, penderfynwyd y byddai'r achos hwn yn cael ei ddychwelyd i'r Panel i'w adolygu yn eu cyfarfod nesaf.

**Asesiad Panel: Priodol**

**Cam Gweithredu 2**

Ailystyried achos 11 yng nghyfarfod y Panel ym mis Ionawr 2018 yng ngoleuni'r ffaith nad yw'r polisi ar gyfer Rhybuddion Amodol yn gymwys ar gyfer troseddau domestig.

### Achos 12

Penderfynodd yr aelodau panel bod yr achos hwn wedi ei waredu yn amhriodol. Ystyriwyd yr ufudd-dod llwyr a'r parodrwydd i dalu am ddifrod, fodd bynnag, oherwydd maint y difrod a achoswyd i'r eiddo, sydd i'w weld yn y ffeil achos, mae'n amlwg yr oedd ffrwydrad y drwgdybiedig yn faith ac yn ddifrifol. Yn ogystal, gan fod hanes gan y drwgdybiedig o droseddu dros 6 blynedd, roedd yr aelodau'n teimlo y dylid fod wedi cyhuddo'r drwgdybiedig.

**Asesiad Panel: Amhriodol**

### Achos 13

Roedd yr aelodau'n cytuno bod yr achos hwn wedi ei waredu'n briodol. Ni fynegwyd pryderon ynglŷn â'r rhesymwaith o fewn y ffeil achos. Fodd bynnag, nododd y Panel bod angen diweddaru cofnod Cyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu y drwgdybiedig er mwyn llawn adlewyrchu'r troseddau a ddatgelwyd ar y cyfaddefiad o euogrwydd.

**Asesiad Panel: Priodol**

**Cam Gweithredu 3**

Diweddaru cofnod cyfrifiadur cenedlaethol yr heddlu y drwgdybiedig o fewn achos 13 er mwyn adlewyrchu'r troseddau a ddatgelwyd ar y cyfaddefiad o euogrwydd.

### Achos 14

Methodd yr aelodau panel â dod i gasgliad ar yr achos hwn. Roedd yr aelodau'n teimlo bod rhesymwaith aneglur o fewn y ffeil achos ar gyfer gwaredu fel

Rhybudd Cymunedol. Roedd y drwgdybiedig eisoes wedi'i arestio am yr un drosedd y noson cyn i'r drosedd hon gael ei hadrodd.

Er mwyn gwerthuso'r achos yn llawn, roedd y Panel eisiau adolygu yn y cyfarfod nesaf pan fyddai gwybodaeth bellach ar yr achos gysylltiedig ar gael.

**Asesiad Panel: Methu â dod i gasgliad**

| **Cam Gweithredu 4** |
| --- |
| Yr heddlu i gasglu mwy o dystiolaeth ar yr achos sy'n gysylltiedig ag achos 14 a'r Panel i ailystyried yn eu cyfarfod nesaf. |

### Achos 15

Cytunwyd bod Rhybudd yn briodol yn yr achos hwn gan fod y drwgdybiedigion yn cario reifflau aer mewn man cyhoeddus. Ni fu bygythiad i aelodau o'r cyhoedd nac unrhyw euogfarnau blaenorol cysylltiedig.

**Asesiad Panel: Priodol**

### Achos 16

Roedd aelodau panel yn teimlo bod yr achos hwn wedi ei waredu yn amhriodol. Nid oedd gan y drwgdybiedig hanes o euogfarnau blaenorol ac roedd y Panel yn teimlo bod y drosedd wedi ei chyflawni drwy ddiffyg gwybodaeth o gwmpas cyfreithiau dryll. Er bod peth amser wedi mynd heibio wrth ddisgwyl i'r drwgdybiedig fynychu cyfweliad, rhoddwyd cyfaddefiad llawn ynghyd â llythyr o ymddiheuriad.

**Asesiad Panel: Priodol**

| **Cam Gweithredu 5** |
| --- |
| Heddlu / Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys i ystyried cynnal gweithgarwch ymgysylltu mewn perthynas â feddu ar ddrylliau i godi ymwybyddiaeth ynghylch cyfreithiau arfau saethu. |

### Achos 17

Nododd aelodau panel bod y rhesymwaith yn y ffeil achos yn ddefnyddiol, fodd bynnag, oherwydd y ffaith bod y drwgdybiedig yn ddefnyddiwr arfau saethu

profiadol, dylai fod wedi gwybod y cyfreithiau mewn perthynas ag addasu arfau. Ystyriwyd bod y drwgdybiedig wedi addasu arf saethu o'r blaen yn dilyn awdurdod cyfreithiol sy'n awgrymu y byddai'r drwgdybiedig yn llwyr ymwybodol o'r gyfraith berthnasol.

Anfonwyd llythyr wedi'i eirio'n gryf gan yr adran trwyddedu arfau saethu i'r drwgdybiedig ac mae trwydded arfau saethu'r drwgdybiedig yn cael ei adolygu ar hyn o bryd, fodd bynnag, roedd y Panel yn teimlo nad oedd Datrysiad Cymunedol Oedolion yn waredIad digonol. Roedd aelodau panel yn teimlo y byddai'n fuddiol bwydo barn y Panel yn ôl i'r swyddog yn yr achos er mwyn cynorthwyo dysgu.

**Asesiad Panel: Amhriodol**

| **Cam Gweithredu 6** |
|---|
| Rhoi adborth y panel o achos 17 i'r swyddog yn yr achos. |

### Achos 18

Cytunodd aelodau panel bod yr achos hwn wedi ei waredu'n briodol, fodd bynnag, mynegwyd pryderon mewn perthynas â'r rhesymwaith y tu ôl i'r matrics difrifoldeb a gofnodwyd oherwydd cafodd ei addasu y tu allan i reoliad polisi. Trafododd yr aelodau'r mater yn helaeth gan fod anghysondeb o ran cwblhau'r matrics difrifoldeb yn thema gyson.

**Asesiad Panel: Priodol Gydag Amheuon**


### Achos 19

Cytunwyd bod Datrysiad Cymunedol Oedolion yn briodol ar gyfer yr achos hwn. Er bod amharodrwydd cychwynnol gan y drwgdybiedig i dderbyn y datrysiad cymunedol oedolion am ei fod yn gwrthod cyfaddef i'r drosedd, cafodd ei lofnodi'n ddiweddarach. Daeth i sylw'r heddlu bod anghydfod parhaus rhwng y dioddefydd a'r troseddwr, fodd bynnag, ni fyddai hyn yn effeithio ar y rheswm dros waredIad yr achos hwn.


**Asesiad Panel: Priodol**


## 7.0 Asesiadau'r Panel hyd yn hyn

Ers mis Ebrill 2013, mae'r Panel wedi ystyried amrediad o warediadau, fel y dangosir yn y graff isod.




Mae'r graff isod yn dangos asesiad y Panel o'r mathau o droseddau a gafodd eu hystyried yn y cyfarfod diweddaraf. Gall hyn gynnwys data o gyfarfodydd cysylltiedig blaenorol hefyd.




O'r 184 achos a gafodd eu harchwilio rhwng Ebrill 2013 ac Awst 2017[1], aseswyd bod 52% yn briodol, 27% yn amhriodol, 18 % yn briodol gydag amheuon, a methodd y panel â dod i gasgliad yn 2% o achosion.

Ar y cyfan, bu cynnydd yn nifer yr achosion y mae'r Panel wedi ystyried sydd â gwarediadau priodol. Gellir gweld y newid hwn dros amser yn y graff isod.





[1] Cwmpesir gweithgarwch y Panel o fis Tachwedd 2013 tan fis Hydref.

Mae'r graff isod yn dangos y crynodeb yn ôl math o drosedd fel canran o'r achosion a ystyriwyd rhwng Tachwedd 2013 a Hydref 2017.




Mae'r graff canlynol yn dangos gwir nifer yr achosion a aseswyd o fewn pob math o drosedd a barn y Panel yn eu cyfarfodydd rhwng Tachwedd 2013 Hydref 2017.



### 7.1 Arfer da

Mae'r enghraifft ganlynol o arfer da wedi'i nodi o ganlyniad i waith y Panel y chwarter hwn:

- Mae'r gwaith a gyflawnir gan Swyddfeydd Ieuenctid yn drylwyr er mwyn cefnogi pobl ifainc i fynd i'r afael â'u hymddygiad troseddol.
- Yn gyffredinol, roedd y Panel yn fodlon â'r rhesymwaith a nodwyd o fewn y rhan fwyaf o ffeiliau achos, a arweiniodd at y canlyniad gwaredu priodol.

### 7.2 Meysydd ar gyfer gwella

Nodwyd nifer o feysydd ar gyfer gwella o ganlyniad i waith y Panel y chwarter hwn:

- Mae angen gwell ymwybyddiaeth gyhoeddus ac addysg mewn perthynas â chyfreithiau arfau saethu.
- Mae angen gwaith pellach er mwyn sicrhau bod swyddogion yn gwybod sut i gael gwared ar achosion o'r natur hwn yn gywir.
- Nododd aelodau bryder bod mathau gwaredu llai'n cael eu defnyddio pan nad oedd y drwgdybiedig yn cyfaddef yn llawn i'r drosedd wreiddiol.
- Mae'r Panel dal yn dod o hyd i nifer o achosion lle mae cwblhau 'Matrics Difrifoldeb Oedolion ACPO' yn anghyson â pholisi. Bydd hyn yn cael ei drin drwy'r "Seminarau Rhingylliaid" a fydd yn cael eu cynnal o fis Ionawr i fis Ebrill 2018.

## 8.0 Ffocws y Panel ar gyfer y Dyfodol

Ar argymhelliad SCHTh, cytunodd yr aelodau i ystyried gwarediadau y tu allan i'r llys mewn perthynas â digwyddiadau trefn cyhoeddus yng nghyfarfod nesaf y Panel Gwarediadau y Tu Allan i'r Llys.